# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13525

## 167

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 1, 2 a 10 gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**Atebwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd**

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau yn dilyn effaith Storm Babet?

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod Dŵr Cymru yn cydymffurfio ag amodau ei drwydded weithredol yn dilyn pryderon ynghylch cydymffurfiaeth â'r trwyddedau gollwng?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.52

Gwnaeth **Alun Davies** ddatganiad am - Dadorchuddio cerflun o Roy Francis ym Mrynmawr (21 Hydref).

Gwnaeth **Delyth Jewell** ddatganiad am - Gŵyl Newport Rising (4 Tachwedd).

Gwnaeth **Jayne Bryant** ddatganiad am - Diwrnod Ymwybyddiaeth Corachedd (25 Hydref).

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Yr Holodomor

Dechreuodd yr eitem am 15.57

**NDM8381** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod yr Holodomor yn drosedd a bennwyd ymlaen llaw, a gyflawnwyd ac a arweiniwyd gan Stalin a'r Llywodraeth Sofietaidd yn erbyn pobl Wcráin.

2. Yn ystyried bod yr Holodomor yn weithred o hil-laddiad.

3. Yn nodi rôl hollbwysig y newyddiadurwr o Gymru, Gareth Jones, wrth ddod â chreulondeb yr Holodomor i sylw'r byd.

4. Yn parhau i sefyll gyda phobl Wcráin wrth iddynt wynebu rhyfel anghyfreithlon Putin.

**Cyd-gyflwynwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Data perfformiad adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Dechreuodd yr eitem am 16.22

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8390** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd data ystyrlon a thryloyw wrth wella gofal a diogelwch cleifion.

2. Yn gresynu at ganfyddiadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys nad yw prif ddata perfformiad adrannau brys wedi'u hadrodd yn gywir ers dros ddegawd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi ffigurau cyn-rhyddhau fel mater o drefn ar gyfer adrannau brys Cymru er mwyn deall perfformiad yn well a llywio'r broses o wneud penderfyniadau;

b) esbonio pam mae'n ymddangos bod y data perfformiad mewn ymatebion a ddarparwyd gan fyrddau iechyd lleol Cymru i'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a data perfformiad yr adran achosion brys a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn wahanol; ac

c) comisiynu adolygiad annibynnol o ddata cyhoeddedig i sicrhau eu bod yn debyg rhwng gwledydd y DU.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 38 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r sicrwydd gan y byrddau iechyd bod data adrannau achosion brys wedi'u hadrodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Yn nodi bod y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau annibynnol wedi croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i roi sicrwydd ynghylch ansawdd yr ystadegau.

Yn nodi, yn seiliedig ar gydymffurfiaeth y byrddau iechyd â'r canllawiau sydd gennym yng Nghymru, yr ystyrir bod modd cymharu ystadegau Cymru ar gyfer adrannau achosion brys mawr â'r ystadegau ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys Math 1 yn Lloegr.

Yn nodi ymhellach bod gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau a chlinigwyr i adolygu'r ffordd yr ydym yn mesur ansawdd y gofal mewn adrannau achosion brys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod gan 82 y cant o arweinwyr clinigol a meddygon ymgynghorol a arolygwyd gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys olwg negyddol ar y polisi torri eithriadau.

Yn gresynu bod amseroedd aros damweiniau ac achosion brys wedi gwaethygu ers i'r polisi gael ei gyflwyno dros ddeng mlynedd yn ôl.

Yn credu bod y polisi yn peryglu gallu'r gwasanaethau brys i gynllunio a rheoli eu hadnoddau yn effeithiol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ym mhwynt 3, dileu is-bwynt b) a rhoi yn ei le:

dileu'r polisi torri eithriadau yn unol â dymuniadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Trafnidiaeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.18

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8389** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi ei bod yn bum mlynedd ers i Trafnidiaeth Cymru gymryd yr awenau dros fasnachfraint rheilffyrdd Cymru gyfan gan Trenau Arriva Cymru.

2. Yn gresynu:

a) bod darpariaeth gwasanaeth trenau ledled Cymru yn parhau i fod yn annerbyniol o annibynadwy a drud, gyda dim ond 57 y cant o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023;

b) dim ond 29 y cant o deithiau a gaiff eu gwneud ar drenau newydd ar hyn o bryd, sydd ymhell islaw'r targed o 95 y cant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023; ac

c) Trafnidiaeth Cymru sydd â'r graddfeydd boddhad cwsmeriaid isaf o holl brif weithredwyr rheilffyrdd y DU.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed, a sicrhau gwelliannau o ran prydlondeb ac uwchraddio'r stoc, yn ogystal â chynllunio ar gyfer gwasanaethau digonol i gyd-fynd â digwyddiadau mawr yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod effaith perfformiad rheilffyrdd gwael diweddar ar deithwyr, gyda heriau'n cynnwys trenau sy'n heneiddio ac yn annibynadwy, gweithredu diwydiannol mewn cwmnïau a reolir gan Lywodraeth y DU, a'r pwysau ariannol parhaus a achosir gan COVID a chwyddiant.

Yn croesawu gwaith Trafnidiaeth Cymru i sefydlogi perfformiad trenau ers mis Awst.

Yn croesawu'r buddsoddiad o £1.1 biliwn yn llinellau craidd y Cymoedd a'r buddsoddiad o £900 miliwn mewn cerbydau rheilffyrdd ar draws rhwydwaith Cymru a'r gororau.

Yn edrych ymlaen at y newid sylweddol i deithwyr wrth i gerbydau rheilffyrdd newydd gael eu cyflwyno ar gyfer 95 y cant o deithiau erbyn 2024, yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r achos busnes gan Trafnidiaeth Cymru i gyfiawnhau'r £125 miliwn o gyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i'r cwmni yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.22

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.29

**NDM8388** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Ymwybyddiaeth o strôc a'r ymgyrch FAST/NESA

Daeth y cyfarfod i ben am 18.51

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023**